



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Cylch Meithrin Pontyberem
Neuadd Goffa
Nant y Glo
Pontyberem
S15 5HU**

Dyddiad yr arolygiad: 03 Tachwedd 2011

gan

Branwen Llewelyn Jones

ar ran

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

Ⓜ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrau Ei Mawrhydi 201X: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Pontyberem wedi'i sefydlu yn y Neuadd Goffa ym mhentref Pontyberem yn Sir Gaerfyrddin.

Agorwyd y lleoliad yn 1977. Cofrestrwyd y cylch i ddarparu ar gyfer uchafswm o ddeunaw o blant fesul sesiwn. Mae'n cyfarfod pum bore'r wythnos o 8.55 yb tan 12.15 yb am dri deg naw wythnos y flwyddyn. Mae'r cylch wedi'i chofrestru gyda Mudiad Ysgolion Meithrin. Yr arweinyddes yw'r person cofrestredig.

Mae gan y cylch bwyllgor rheoli a gweithreda'r lleoliad trwy gyfrwng y Gymraeg. Daw tua 40% o blant o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Adeg yr arolwg roedd dau ddeg o blant wedi eu cofrestru gan gynnwys deg plentyn o dair blwydd oed sydd yn cael eu hariannu.

Mae yno ystafell ddigonol ag adnoddau da. Nid oes ffenest i'r ystafell ond serch hynny, mae hi'n ddeniadol iawn a chaiff ei defnyddio'n effeithiol dros ben i ddarparu ystod eang o weithgareddau i'r plant. Mae'r ardal tu allan yn annigonol ond gwneir y defnydd gorau posib ohoni a'r amgylchedd i gynnig profiadau cyfoethog i'r plant. Er mwyn sicrhau diogelwch y plant mae'r drws ar glo bob amser ac yn agor o'r tu mewn yn unig; rhaid canu cloch i gael mynediad.

Daw'r plant sy'n mynychu'r lleoliad o Bontyberem a'r ardal o'i chwmpas a throsglwydda'r plant i Ysgol Gynradd Pontyberem. Cydnabyddir yr ardal fel un sydd dan anfantais economaidd.

Cafodd y lleoliad ei harolygiad diwethaf ym mis Ebrill 2010 gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Nid yw wedi derbyn arolygiad gan Estyn o'r blaen. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Plant 1989.

Adeg yr arolwg nid oedd yno blant wedi'u nodi ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae croeso i blant o gefndiroedd ethnig ond nid oedd rhai yn y cylch adeg yr arolwg.

Cyflogir tair o ymarferwyr ac mae gan ddwy gymwysterau priodol yn y blynyddoedd cynnar. Mae gan yr arweinyddes ac un ymarferwraig gymwysterau NVQ lefel 3 yng ngofal plant. Mae gan yr ymarferwraig arall brofiad helaeth wedi gweithio yn y cylch am dros ugain mlynedd.

Crynodeb

Perfformiad presennol y lleoliad	Da
Rhagolygon gwella'r lleoliad	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol y darparwr yn dda am y rhesymau canlynol:

- mae'r plant yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel yn y feithrinfa a mwynhânt oll eu profiadau;
- mae yno ethos cynwysedig a hapus sydd â'r plentyn yn y canol;
- mae cyflawniadau a chynnydd y plant yn dda;
- mae'r addysgu'n gyson dda;
- mae'r asesu trwy arsylwi'n bwydo'n dda'r cynllunio, a
- mae'r ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol fel tîm.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r darparwr yn dda am y rhesymau canlynol:

- mae diwylliant o adlewyrchu proffesiynol yn datblygu sy'n seiliedig ar hunan-arfarnu;
- mae'r arweinyddiaeth yn dda, ac
- mae gan yr ymarferwyr ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Argymhellion

Er mwyn cynnal a gwella ar y ddarpariaeth a'r cyflawniadau yma dylai'r ymarferwyr:

A1 ddatblygu ymhellach eu defnydd o gwestiynau penagored ac estynedig, a

A2 sicrhau na chaiff yr addysgu ei orgyfeirio.

.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y feithrinfa'n cynhyrchu cynllun gweithredu i nodi sut y caiff yr argymhellion yma eu cyflawni.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae pob plentyn yn cyflawni'n dda o'u man cychwyn ac yn ôl eu cyfnod datblygu. Gwna pob plentyn gynnydd da ym mhob maes dysgu'r Cyfnod Sylfaen.

Mae Cymraeg y plant sy'n dod o gartrefi di-gymraeg yn datblygu'n raddol a deallant fyw nag y siaradant. Gwna pob plentyn gynnydd priodol yn ei iaith o'i fan cychwyn.

Datblyga pob plentyn eirfa a phatrymau iaith cywir a dealla a chyflawna'r mwyafrif yn gywir gyfarwyddiadau ac atebant gwestiynau yn briodol. Mae tua hanner yn siarad Cymraeg gyda'i gilydd wrth chwarae. Defnyddia'r mwyafrif dafodiaith yr ardal yn naturiol a chyfoethoga hyn eu hiaith yn dda. Gwrandawa'r mwyafrif ar stori gan ganolbwyntio'n dda a mwynhânt oll wrando ar ffefrynnau yn rheolaidd.

Hoffant i gyd ganu ystod o ganeuon ac adrodd rhigymau a thrafodant lyfrau fel darllenwyr. Mae pob plentyn yn mwynhau gwneud marciau y tu fewn a thu allan ac arbrofa'r mwyafrif helaeth yn hyderus ag ystod o ddeunyddiau i'r pwrpas hwn. Defnyddia bron pob un iaith fathemategol gywir wrth gymharu hyd, taldra neu faint pethau. Defnyddiant eu bysedd i rifo ac adnabyddant siapau cyffredin. Datblygant fedrau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu da.

Dangosa'r mwyafrif sgiliau creadigol da wrth chwarae rôl, paentio a chreu gludweithiau a mwynhânt wrando ar fiwsig a chydysymud i gerddoriaeth.

Datblyga pob plentyn lefel dda o annibyniaeth a hunanhyder. Maent oll yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig tra'n archwilio eu hamgylchedd y tu allan ac maent i gyd yn mwynhau eu profiadau.

Lles: Da

Y mae'r plant i gyd yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad. Rhydd y berthynas agos a hoffus iawn rhwng yr oedolion a'r plant ymdeimlad braf o ddiogelwch a boddhad iddynt. Dengys hunan-hyder a hapusrwydd y plant eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu a dangosant hwythau, yn eu tro, barch a hoffter tuag at yr oedolion. Ymddygant fel teulu bach a dangosant hoffter a chonsyrn tuag at ei gilydd, yr ymarferwyr ac ymwelwyr.

Dealla pob un bod bwyta'n iach yn bwysig i'w hiechyd. Maent yn enwi bwydydd iach a phethau na ddylent fwyta. Mae bron pob plentyn yn mynd i'r tŷ bach ar ei ben ei hunan ac yna'n golchi ei ddwylo.

Mae gan bob plentyn agwedd gadarnhaol iawn tuag at ddysgu gan gymryd rhan weithredol a brwdfrydig yn eu profiadau dysgu ac ymddwyn yn dda. Maent yn gwrtais bob amser ac mae'r mwyafrif yn dangos ystyriaeth tuag at eraill.

Gwna'r plant ddewisiadau a phenderfyniadau ynglŷn â'u dysgu pan gânt gyfleoedd i wneud hynny ac y mae pob plentyn yn hyderus yn y lleoliad.

Mwynhânt eu hymweliadau cyson i'r gymuned leol gan ymweld â'r neuadd goffa, y llyfrgell, yr eglwys, y parc a swyddfa'r fenter iaith ac y mae'r feithrinfa yn chwarae rhan bwysig ym mywyd y gymuned.

Gwna'r mwyafrif helaeth ffrindiau bach newydd yn y feithrinfa ac y maent yn hoff iawn o'i gilydd. Chwiliant am eu ffrindiau i ddod i chwarae gyda nhw a dangosant gonsyrn amdanynt.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ar y cyd wedi iddynt drafod darpariaeth a chanlyniadau'r wythnos flaenorol. Trafodant gyflawniadau ac anghenion pob plentyn unigol ac ystyrir hefyd asesiadau a wneir. Defnyddiant yn dda'r holl wybodaeth hon i fwydo'r cylch nesaf o ddarpariaeth. Ymateba'r cynllunio yn dda i ddiddordebau ac anghenion y plant a chynllunnir ystod eang o brofiadau dysgu diddorol a gweithredol sydd yn galluogi'r plant i wneud cynnydd da tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Nodwedd dda yw hyblygrwydd y cynllunio a gwelwyd yr ymarferwyr yn ei addasu i gwrdd â diddordebau'r plant. Adeilada'r oedolion ar wybodaeth, dealltwriaeth, medrau a diddordebau'r plant yn dda ac mewn ffordd sydd yn ystyrion iddynt. O ganlyniad i'r nodweddion yma, mae'r cynllunio yn dda.

Mae ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd da i'r plant i ddatblygu'n ddysgwyr brwdfrydig, hyderus ac annibynnol ac i ddatblygu medrau creadigol, corfforol, ieithyddol a mathemategol da. Hybir eu sgiliau creadigol yn dda wrth chwarae rôl. Cânt brofiadau da i ddatblygu eu medrau creadigol hefyd drwy greu gludweithiau, tynnu lluniau o'u harsylwadau a chwarae offerynnau taro. Mae'r ymarferwyr yn rhoi pwyslais ar archwilio'r amgylchedd ac o ganlyniad mae'r plant yn dangos tipyn o ddiddordeb yn y byd o'u cwmpas a meddant ar wybodaeth dda ohono. Elwant ar gyfleoedd i blannu a thyfu blodau a llysiau a dysgant am ddatblygiad cynaliadwy pan gânt gyfleoedd i ail-gylchu bwyd gwastraff.

Drwy ymwneud â'u profiadau dysgu ysgogol a chydweithio o fewn cymuned ddysgu clos y lleoliad mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu cysylltiadau cadarn gydag eraill. Dangosant barch a goddefgarwch at bawb gan gynnwys pobl o gefndiroedd diwylliannol eraill.

Caiff y plant fodel dda a naturiol o'r iaith Gymraeg a chânt eu hannog gan yr ymarferwyr i ymestyn eu hiaith trwy ddatblygu eu diddordeb mewn rhigymau, caneuon a straeon sydd yn cynnwys iaith ddiddorol a geirfa eang. Dathlant ddiwylliant Cymreig mewn ystod o ffyrdd gan gynnwys mynychu dathliadau Dydd Gŵyl Dewi yn y gymuned.

Addysgu: Da

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth dda o ddatblygiad plentyn a datblygiadau cyfoes yn ogystal â phrofiad helaeth yn y maes; fe rydd hwn sail dda i'r ddarpariaeth. Deallant ofynion y Cyfnod Sylfaen yn dda ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob plentyn yn ôl ei gyfnod datblygu. Rheolir ymddygiad mewn ffordd sensitif a chadarnhaol ac o ganlyniad fe ddysga'r plant i ddangos caredigrwydd tuag at eraill a beth sydd ac nad sydd yn ymddygiad priodol.

Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o gwestiynau i ymestyn dysgu'r plant ar y cyfan ond ni wneir ddigon o ddefnydd o gwestiynau penagored ac estynedig i hyrwyddo'n well eu medrau meddwl a datrys problemau. Mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn effeithiol yng ngweithgareddau'r plant wrth iddynt chwarae i ymestyn eu dysgu â'n aml. Mae'r addysgu yn bodloni anghenion unigol y plant yn dda.

Pan fydd y trefniant yn hyblyg, rhydd gyfleoedd da i'r plant wneud penderfyniadau a dewisiadau eu hunain ynglŷn â'u dysgu ac i ddatblygu eu hannibyniaeth a hunanhyder. Fodd bynnag, caiff y trefniant a'r addysgu ei gorgyfeirio yn y tasgau ffocws ac mae hwn yn cyfyngu i raddau datblygiad eu hannibyniaeth. Rhydd yr ymarferwyr ddigon o amser i'r plant i ymgolli yn eu profiadau ac nid ydynt yn ymyrryd onibai bod cyfle i ymestyn y dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod a deall y plant yn dda iawn. Maent yn asesu drwy arsylwi ar y plant wrth eu profiadau dysgu gan nodi pethau arwyddocaol a thrafod eu canfyddiadau gyda'i gilydd. Bwydir y wybodaeth a gasglwyd i mewn i'r cylch nesaf o gynllunio a gwelir yr effaith yn y ddarpariaeth dda. Cedwir cofnodion parhaus o gyflawniadau'r plant a chynhwysa'r rhain wybodaeth ddefnyddiol a thrylwyr sydd yn rhoi darlun clir o gynnydd pob plentyn. Mesurir cynnydd y plant yn gyson ymhob maes dysgu a defnyddir y wybodaeth hon i fwydo'r cynllunio er mwyn cwrdd ag anghenion a diddordebau'r plant yn dda. Derbynia'r rhieni adroddiad cynhwysfawr am eu plant pan fyddant yn gadael i fynd i'r ysgol.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ymarferwyr wedi creu awyrgylch deuluol yn y lleoliad lle teimla'r plant yn gyfforddus a hapus iawn. Caiff pob plentyn ei werthfawrogi a dangosir parch tuag at eu syniadau a'u diddordebau.

Datblygant yn dda ymwybyddiaeth y plant o'r pwysigrwydd o fwyta'n iach ac o gadw'n heini. Caiff chwylfrydedd y plant am eu bywydau a chredoau eu hunain a phlant eraill ei ddatblygu'n dda, er enghraifft, drwy ddathlu'r flwyddyn newydd Tsieineaidd a thrwy straeon. Dywed y plant weddi cyn byrbryd a chyn mynd tuag adref. Datblygant synnwyr o syndod a rhyfeddod am y byd o'u cwmpas drwy'r cyfleoedd cyffrous y cânt i archwilio'r newidiadau tymhorol yn eu hamgylchedd.

Mae'r ymarferwyr yn meithrin yn dda iawn y moesau hynny y credant eu bod yn angenrheidiol i ddatblygiad cyflawn y plentyn cyfrifol. Mae'r plant yn dysgu am bwysigrwydd tegwch, gonestrwydd a gwirionedd ac maent yn gwybod yn dda beth yw'r gwahaniaeth rhwng da a drwg yng nghyd-destun eu bywydau ifanc. Mae'r

ddarpariaeth yn galluogi'r plant i gymdeithasu'n dda, cymryd cyfrifoldeb, dangos blaengaredd a datblygu dealltwriaeth dda o fyw a rhannu yn eu cymuned fach.

Mae'r berthynas sy'n bodoli rhwng y lleoliad, yr ysgol ac asiantaethau allanol yn dda. Elwa'r plant yn fawr iawn ar y berthynas fuddiol gyda'r athrawes ymgynghorol, tîm Cyfnod Sylfaen yr awdurdod lleol a swyddogion Mudiad Ysgolion Meithrin. Sicrha'r berthynas glos rhwng yr ysgol a'r lleoliad drosglwyddiad llwyddiannus i'r plant wrth iddynt ddechrau yn y dosbarth meithrin.

Mae'r berthynas rhwng y rhieni a'r lleoliad yn dda iawn. Dywedodd detholiad o rieni eu bod yn fodlon iawn ar bob agwedd o ddarpariaeth y lleoliad. Dywedant fod y staff yn adnabod eu plant yn dda a bod eu plant yn derbyn gofal da iawn a'u bod hwythau'n gallu mynd at yr arweinyddes ag unrhyw fater. Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant diogelu plant a gwyddant yn dda'r gweithdrefnau i'w dilyn. Mae'r gweithdrefnau angenrheidiol yn weithredol ac adlewyrchant Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008. Yr arweinyddes yw'r person enwebedig

Nid oedd yna blant ag anghenion dysgu ychwanegol adeg yr arolwg ond caiff pob plentyn fynediad i bob maes dysgu a'r holl brofiadau cyfoethog a ddarperir.

Trafodwyd un peth ynglŷn â diogelwch gyda'r arweinyddes yn ystod yr arolwg.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae ethos cynnes a chadarnhaol yn bodoli yn y lleoliad. Dengys yr oedolion hoffter a charedigrwydd mawr tuag at bob un a chaiff pob plentyn ei werthfawrogi. Adnabydda'r ymarferwyr y plant a'u hanghenion a'u diddordebau yn dda ac ymatebant i'r rhain gan ddefnyddio eu gwybodaeth dda o gefndiroedd y plant. Caiff pob plentyn fynediad cyfartal i bob agwedd o'r cwricwlwm. O ganlyniad i'r hoffter a pharch at y plentyn a'r safonau moesol a ddangosir gan y staff, datblyga'r plant oddefgarwch, agweddau cadarnhaol iawn tuag at eu dysgu ac ymddygiad da.

Mae gan y lleoliad bolisiâu a gweithdrefnau cadarnhaol iawn i ddelio â phroblemau ymddygiad gormesol, hyrwyddo cyfle cyfartal a hawliau dynol sy'n hysbys i bawb. Caiff y rhain eu monitro a'u gweithredu'n effeithiol iawn. Cofrestrir y cylch gan yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Cynhelir asesiadau risg yn rheolaidd ac y mae gan bob ymarferwr dystysgrif gan Swyddfa Cofnodi Troseddwyd.

Mae'r gymhareb oedolion i blant yn dda a medda'r staff ar gymwysterau da a chryn dipyn o brofiad. Maent yn mynd i'r afael â gofynion fframwaith y Cyfnod Sylfaen yn dda a derbynia'r plant brofiadau heriol a difyr sydd yn ymateb yn dda i'w diddordebau. Mae'r ystafell yn ddigonol gogyfer y nifer o blant sydd ar y gofrestr yn bresennol. Cânt le i chwarae rôl, edrych ar lyfrau, chwarae gyda dŵr a thywod, paentio a gwneud ymarfer corff. Er bod yr ardal tu allan yn gyfyng iawn mwynhânt chwarae yno a hefyd derbyniant ystod eang o brofiadau rheolaidd pan ânt i'r parc i archwilio eu hamgylchedd naturiol. Dangosa pob plentyn gonsyrn a charedigrwydd tuag at ei gymheiriaid, yr oedolion ac ymwelwyr.

Derbynia'r plant ddigon o amser i ymrwymo'n llawn gyda phethau sydd o ddiddordeb iddynt sydd yn hyrwyddo'u sgiliau creadigol, corfforol a mathemategol ac sydd yn datblygu eu gallu i ganolbwyntio. Mae defnydd y lleoliad o'i gymuned yn dda ac elwa'r plant o'u hymweliadau i'r neuadd goffa lle y cwrddant â thrigolion Pontyberem i ddathlu achlysuron fel cyngherddau Nadolig a Dydd Gŵyl Dewi.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Y plentyn a'i anghenion a diddordebau unigryw sydd wrth graidd y ddarpariaeth a llwydda'r arweinyddes greu ethos cadarnhaol a hapus iawn yn y feithrinfa.

Mae'r arweinyddes yn rhoi cyfarwyddyd clir i'r lleoliad a'r broses o welliant. Cydweithia hi ar ymarferwyr yn dda a rhannant egwyddorion ac amcanion pendant sydd wedi ei seilio ar ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plentyn. Gwelir y rhain yn cael eu gweithredu drwy'r profiadau dysgu gweithredol a diddorol a gaiff y plant a'r system trefniant sydd yn caniatáu iddynt wneud penderfyniadau a dewisiadau ynglŷn â'u dysgu. Mae hyn yn magu'n dda eu hunan hyder ac annibyniaeth ac yn eu cynorthwyo i wneud cynnydd da.

Cyflawna hi ei chyfrifoldebau'n effeithiol gan ddangos ymrwymiad cadarn i'w rôl er budd y plant. Cyfranna'r ymarferwyr tuag at gynllunio strategol y lleoliad. Rhanna'r arweinyddes y gwerthoedd y mae am eu hyrwyddo drwy esiampl bersonol a thrafodaeth gyson. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel o'u hunan, y staff ac o'r plant. Mae gan bob ymarferwraig dargedau personol sydd yn sicrhau darpariaeth dda a safonau da o gyflawniad. Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r rhain ei fonitro'n gyson.

Mae'r cynllun datblygu a gwella lleoliad sydd wedi ei seilio ar ganlyniadau hunan-arfarnu yn rhoi cyfeiriad clir i fywyd a gwaith y cylch.

Mae gan y pwyllgor rheoli ymwybyddiaeth dda o bob peth sydd yn digwydd yn y lleoliad ac yn gefnogol iawn o'r cylch. Deallant a chyflawnant eu rolau'n effeithiol. Gwyddant yn dda am berfformiad y cylch. Defnyddia'r pwyllgor wybodaeth drylwyr i wneud penderfyniadau effeithiol a chyflawna ei holl ddyletswyddau cyfreithiol.

Mae'r arweinyddes yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn ôl gofynion y Cynulliad a'r Awdurdod Lleol.

Gwella ansawdd: Da

Gwna'r lleoliad ddefnydd da o'u hunan arfarnu i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn arwain at adnabod pethau i'w gwella sydd yn sicrhau manteision cadarnhaol i bob plentyn. Ymgynghora'r arweinyddes â rhieni, gofalgwyr a'r plant i fwydo'r hunan-arfarnu. Defnyddiant y wybodaeth a dderbynnir oddi wrth holiaduron i rieni i gywain barnau ac adnabod meysydd i'w datblygu.

Cydweithiant yn effeithiol iawn gyda ymgynghorwraig Cyfnod Sylfaen yr awdurdod lleol sy'n ffrind beirniadol. Defnyddiant y wybodaeth sy'n deillio o'r hunan-arfarnu i gynhyrchu'r cynllun datblygu a gweithredant hefyd yn effeithiol ar argymhellion yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

Yn sgîl y broses hunan arfarnu cynhyrchwyd cynllun gwella lleoliad sydd yn dangos ymwybyddiaeth dda o berfformiad y lleoliad. Mae'n canolbwyntio ar godi safonau trwy wella'r ddarpariaeth a gosod targedau er mwyn cyflawni hyn. Mae cynllunio ar gyfer gwelliant yn dda.

Mae system o werthuso yn ei le a chaiff yr ymarferwyr gyfleoedd i adlewyrchu ar eu perfformiad a nodi'r meysydd y maent am eu datblygu drwy hyfforddiant er mwyn gwella'r ddarpariaeth. Mae'r arweinyddes a'r ymarferwyr yn mynychu cyrsiau hyfforddiant mewn-swydd yn gyson. Gwelir effaith gadarnhaol o hyn ar addysgu a lles y plant wrth iddynt weithredu'r hyn a ddysgant.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Gweithia'r arweinyddes yn effeithiol iawn gydag athrawes ymgynghorol Cyfnod Sylfaen yr awdurdod lleol sydd yn monitro darpariaeth y cylch yn rheolaidd. Cydweithia'n dda hefyd gyda swyddog Mudiad Ysgolion Meithrin sydd yn gefnogol iawn o'r cylch. Mae'r partneriaethau yma yn llwyddiannus iawn ac elwa'r cylch yn fawr arnynt. Mae'r cylch yn rhan o glwstwr lleol sydd yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion cyfoes a rhannu arfer dda.

Gweithia'r staff yn agos iawn gyda'r rhanddeiliaid ac y maent yn barod iawn i ymgynghori ac i dderbyn awgrymiadau gan y rhieni a'r gwarchodwyr.

Mae'r bartneriaeth rhwng y cylch a'r ysgol yn fuddiol iawn ac elwa'r cylch yn fawr ar y bartneriaeth fuddiol gyda Menter Iaith Cwm Gwendraeth sy'n gefnogol iawn iddo.

Rheoli adnoddau: Da

Lleolir ymarferwyr yn dda er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'u cryfderau a sicrhau'r ddarpariaeth orau. Er bod yr ystafell yn gyfyng, fe'i defnyddiant yn effeithiol dros ben. Defnyddiant yr adnoddau y tu fewn a'r ardal fechan iawn tu allan mewn ffordd greadigol iawn er mwyn darparu profiadau cyffrous i'r plant ac ehangu eu gorwelion. Mesurant effaith yr adnoddau ar y dysgu a'r addysgu a chynlluniant ar gyfer anghenion adnoddau yn y dyfodol. Defnyddiant yr awyr agored yn dda iawn i ddatblygu medrau'r plant ymhob maes dysgu.

Gwna'r arweinwyddes a'r staff y defnydd gorau posib o adnoddau'r lleoliad ac o'r cyllid i gynnig y ddarpariaeth gorau. Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

Atodiad 1

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd wyth o holiaduron wedi eu cwblhau. Roeddynt i gyd yn gadarnhaol ac roedd pob rhiant/gwarchodwr yn fodlon neu yn fodlon iawn gyda phob agwedd ar y ddarpariaeth ar gyfer eu plant yn y cylch

Ymateb i drafodaethau gyda phlant

Roedd pob plentyn yn gyfforddus wrth siarad gydag ymwelydd a dywedant eu bônt yn hapus iawn yn y cylch. Soniant am eu ffrindiau a dywedant eu bod yn gwybod beth i'w wneud petaent yn anhapus neu yn gofidio am rywbeth.

Atodiad 2

Y tîm arolygu / yr arolygydd cofnodol – dileer fel y bo'n briodol

Branwen Llewellyn Jones	Arolygydd Cofnodol
-------------------------	--------------------

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)